

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Ôl-hawliadau Gofal lechyd Parhaus y GIG

Taflen Wybodaeth i Hawlwyr a chais  
am wybodaeth

## Beth yw Gofal Iechyd Parhaus y GIG?

Pecyn o ofal yw hwn sy'n cael ei drefnu a'i ariannu'n gyfangwbl gan y Gwasanaeth Iechyd os aseswyd mai anghenion iechyd yw prif anghenion yr unigolyn. Gellir darparu hyn mewn cartref gofal neu yng nghartref yr unigolyn.

## Y Broses Ôl-hawliadau

Os yw unigolyn, neu ei deulu/cynrychiolydd, yn teimlo y gallent fod wedi bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG, ond eu bod wedi talu am y gofal, yna mewn achosion o'r fath byddai'n arferol gwneud cais am adolygiad ôl-weithredol o anghenion iechyd. Mae proses ar gael i adolygu ôl-hawliadau, a Thîm Ôl-hawliadau Gofal Iechyd Parhaus Bwrdd Iechyd Powys sy'n gyfrifol am y broses honno.

Mae ymgynghorwyr clinigol ac ymchwilwyr arbennig wedi'u penodi a byddant yn gyfrifol am gasglu cofnodion, llunio cronoleg o'r anghenion yn ystod cyfnod yr hawliad ac asesu anghenion iechyd yn erbyn y meini prawf Gofal Iechyd Parhaus (GIP) a oedd ar waith yn ystod cyfnod yr hawliad.

Mae 4 llwybr posibl i'w dilyn ar gyfer eich cais.

**Cyfateb** – Os yw'r ymgynghorydd clinigol yn cytuno â'ch hawliad o'r cychwyn cyntaf, caiff Dogfen Penderfyniad fanwl ei pharatoi i gefnogi'r canfyddiadau cymhwysedd. Yna bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu'n fewnol gan gymheiriaid er mwyn sicrhau cysondeb, a chefnogir proses yr adolygiad llawn gan dystiolaeth briodol. Yna cynhelir proses graffu gan Gadeirydd Annibynnol i sicrhau bod y broses wedi'i dilyn a bod y dystiolaeth yn cefnogi'r penderfyniad.

**Dim cymhwysedd** – Mewn achos lle canfyddir nad oes cymhwysedd, cynhelir cyfarfod rhwng yr Ymgynghorydd Clinigol a'r hawlydd er mwyn egluro'r canfyddiadau.

**Trafod** – Mewn achos lle cytunir bod cymhwysedd ar gyfer rhan o'ch cyfnod hawlio, ond nid y cyfan ohono, cynhelir cyfarfod i geisio cytuno ar y cyfnod cymhwysedd. Os na cheir cytundeb bryd hynny, bydd eich achos yn cael ei glywed o fewn panel.


**Gwrandawriad Panel** – Mewn achosion lle mae'r dystiolaeth mewn perthynas â'ch cais yn gymhleth, bydd yr ymgynghorydd clinigol yn cyfeirio eich achos at wrandawriad gan banel. Bydd y panel yn cynnwys cadeirydd annibynnol, uwch-glinigydd bwrdd iechyd (nad yw'n gysylltiedig â'r bwrdd iechyd a fu'n darparu gofal) a chlinigydd 'Sylw Dyledus', h.y. uwch-glinigydd o GIG Cymru sydd ag arbenigedd yn y clefyd/cyflwr sydd gan yr hawlydd. Gofynnir am farn awdurdod lleol cyn y gwrandawriad panel neu efallai y gwahoddir cynrychiolydd i fynychu'r panel os oes gwybodaeth gymhleth i'w hystyried. Fe'ch gwahoddir i fynychu'r gwrandawriad panel ac fe'ch anogir i gymryd rhan.

Gan mai proses yw hon o ad-dalu ffioedd gofal os canfyddir cymhwysedd ar gyfer arian GIP, ac nid iawndal, bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'r ffioedd gofal a dalwyd i'r darparwr.

## Beth yw ystyr Gofal Tymor Hir?

Rydym yn credu bod angen i bob hawlydd gael dealltwriaeth o'r holl opsiynau gofal tymor hir er mwyn deall cymhwysedd ar gyfer GIP yn well. Y rheswm pam mae ar y rhan fwyaf o bobl angen y GIG yw am fod ganddynt salwch neu gyflwr sy'n gofyn am gyfnod byr o driniaeth a gofal. Fodd bynnag, mae angen gofal iechyd parhaus ar rai cleifion i'w helpu i ymdopi â salwch a/neu anabledd. Gyda phobl hŷn, gall hyn olygu nad ydynt mwyach yn gallu aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain a bod rhaid iddynt symud i gartref gofal. Mae cartrefi gofal arbenigol ar gael sydd wedi'u cofrestru i ofalu am bobl hŷn ag anghenion o ganlyniad i salwch meddwl (EMI). Wrth benderfynu a yw rhywun yn gymwys i gael GIP, bydd y penderfyniad yn cael ei seilio ar anghenion iechyd cyffredinol yr unigolyn, yn hytrach nag ar y diagnosis. Mae gofyn penderfynu ai gofal iechyd yw prif angen yr unigolyn. Mae llawer o bobl angen gofal ac yn methu byw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain mwyach; ond eu prif angen yw gofal cymdeithasol yn hytrach na gofal iechyd.

**Darlun o'r gyfran a'r ffrydiau ariannu gwahanol y gall pobl fod eu hangen pan fyddant angen gofal tymor hir**



## Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Yn achos lleiafrif o unigolion, canfyddir bod eu hanghenion gofal tymor hir mor gymhleth, dwys ac anrhagweladwy fel eu bod yn cael eu disgrifio fel pobl sydd ag iechyd fel prif angen ac sy'n gymwys i gael GIP. Fodd bynnag, mae anghenion iechyd unigolyn yn gallu gwella dros amser: gall hyn olygu nad yw'r unigolyn hwnnw mwyach yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer GIP. Ond mae'n bosibl y byddant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Gofal Nyrsio a Ariennir (GNA). Bydd anghenion unigolyn sydd wedi cael ei asesu'n gymwys ar gyfer GIP yn cael eu hariannu'n llawn gan y Gwasanaeth Iechyd.

**Pennir 'prif anghenion iechyd' pan ganfyddir mai iechyd yw prif angen unigolyn. Gall nodweddion yr anghenion ar eu pennau ei hunain neu ar y cyd, ddangos prif anghenion iechyd oherwydd ansawdd a/neu faint y gofal sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion yr unigolyn.**

**Natur:** Mae hyn yn disgrifio nodweddion penodol anghenion yr unigolyn (a all gynnwys anghenion corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol) a'r math o anghenion. Mae hyn hefyd yn disgrifio effaith gyffredinol yr anghenion hynny ar yr unigolyn, gan gynnwys y math (ansawdd) o ymyriadau sy'n ofynnol i'w rheoli.

**Dwysedd:** Mae hyn yn ymwneud â graddau (nifer) a difrifoldeb (gradd) yr anghenion a'r cymorth sydd ei angen i'w diwallu, gan gynnwys yr angen am ofal parhaol/parhaus (dilyniant).

**Cymhlethdod:** Mae hyn yn ymwneud â sut mae'r anghenion yn amlygu eu hunain ac yn rhyngweithio i gynyddu'r sgiliau sy'n ofynnol i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr/cyflyrau a/neu reoli'r gofal. Gall hyn godi gyda chyflwr unigol, neu gallai gynnwys sawl cyflwr neu rhyngweithiad rhwng dau neu fwy o gyflyrau. Gall hefyd gynnwys sefyllfaoedd lle mae ymateb yr unigolyn i'w gyflwr yn effeithio ar ei anghenion cyffredinol, er enghraifft lle mae angen iechyd corfforol yn golygu bod yr unigolyn yn datblygu angen iechyd meddwl.

**Natur Anrhagweladwy:** Mae term yma'n disgrifio i ba raddau y mae anghenion yn codi a gostwng a thrwy hynny yn creu heriau wrth eu rheoli. Mae hefyd yn ymwneud â lefel y risg i iechyd yr unigolyn os nad yw gofal digonol ac amserol yn cael ei ddarparu. Mae rhywun sydd ag angen gofal iechyd anrhagweladwy yn debygol naill ai o gael cyflwr sy'n codi a gostwng, cyflwr ansefydlog neu gyflwr sy'n dirywio'n gyflym.

## Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu

Os nad yw unigolyn yn gymwys i gael GIP, gall fod yn gymwys ar gyfer GNA. Cafodd GNA ei gyflwyno rai blynyddoedd yn ôl a gall gynnwys nifer o wahanol agweddau o ofal. Gall gynnwys tasgau nyrsio uniongyrchol yn ogystal â chynllunio, goruchwyllo a monitro tasgau nyrsio a gofal iechyd i ddiwallu anghenion unigolyn. Yn achos unigolion mewn cartrefi nyrsio, fel arfer cyflogir nyrsys cofrestredig gan y cartref gofal ei hun. Er mwyn

ariannu'r gofal nyrsio yma, mae'r GIG yn gwneud taliad yn uniongyrchol i'r cartref gofal. Mae gweddill y costau gofal yn amodol ar asesiad ariannol gan y gwasanaethau cymdeithasol, a gellir eu talu gan yr unigolyn neu'r teulu. Darperir gofal nyrsio gan nyrsys cofrestredig a chan weithwyr gofal o dan eu goruchwyliaeth, ac mae'n cynnwys gweithgareddau'n ymwneud â chynnal cyfanrwydd croen, gofal personol, symudedd, anymataliaeth, maeth a hydradiad a rhoi meddyginiaeth yn rheolaidd, ochr yn ochr â chefnogaeth seicolegol a diwallu anghenion gofal cymdeithasol.

## Gofal Preswyl

Mae gofal preswyl yn darparu cymorth ar gyfer unigolion dros gyfnod o 24 awr mewn perthynas â gofal personol, symudedd a gofal ymataliaeth. Mae pobl sy'n byw mewn gofal preswyl yn cael mynediad at wasanaethau nyrsio a gwasanaethau iechyd eraill drwy eu meddyg. Mae nyrsys ardal, ynghyd â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, yn ymweld â chartrefi gofal preswyl i fodloni anghenion nyrsio'r preswylwyr o fewn y cartref hwnnw.

## Astudiaeth Achos Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Cafodd gwraig 66 oed â dementia fasgwlaidd, sawl mân strôc a nam gwybyddol dilynol ei derbyn o gartref i Ysbyty Cyffredinol yn dilyn cwmp a arweiniodd at dorri asgwrn ei chlun. Yn dilyn adsefydlu, cafwyd gwelliant yn symudedd Mrs Jones ond nid oedd y ward yn gallu parhau i'w chefnogi oherwydd ei hymddygiad ymosodol. Cafodd Mrs Jones ei throsglwyddo i ysbyty henoed bregus eu meddwl am gyfnod o asesiad a thriniaeth.

Dyma'r anghenion a gafodd eu nodi:

- Cyfnodau hir o gynhyrfu ac aflonyddu dros gyfnod o 24 awr. Roedd Mrs Jones yn aml yn ceisio diosg ei dillad yn y lolfa ac ardaloedd eraill y ward
- Nam gwybyddol difrifol gyda cholli cof tymor byr a thymor hir
- Methu canfod ei ffordd o gwmpas y ward, na gwybod pa amser o'r dydd oedd hi, nac adnabod eraill, gan gynnwys ei theulu agos
- Dim ymwybyddiaeth o ffiniau cymdeithasol a risg, ymyrryd â chleifion eraill ar adegau a pherygl y byddent yn taro nôl yn ei herbyn
- Symudedd cyfyngedig yn dilyn torri asgwrn y glun, yn gallu symud gyda chymorth 1-2 aelod o staff a ffrâm. Fodd bynnag, nid oedd ganddi unrhyw ymwybyddiaeth o'i chyfyngiadau a byddai'n ceisio symud heb gymorth staff, gan ei gwneud mewn perygl mawr o gwmpo
- Oherwydd diffyg ymwybyddiaeth roedd angen goruchwyliaeth arni yn ystod y dydd a mat synhwyrdd yn y nos

- Mynnu sylw staff yn gyson
- Cymorth ac anogaeth gyson i ddiwallu anghenion gofal personol ac ymataliaeth, a'r ymyriadau'n arwain at ymddygiad ymosodol corfforol. Angen i staff gael ymwybyddiaeth o weithdrefnau gofal ac atal, dan oruchwyliaeth nyrs iechyd meddwl cofrestredig
- Aflonydd dros gyfnod o 24 awr, yn gofyn am wiriadau bob hanner awr yn y nos a thawelydd yn ystod y nos. Roedd tystiolaeth o gyfnodau aml dros 24 awr lle'r oedd angen cefnogaeth 1–2 ofalwr ar Mrs Jones
- Yn ofynnol rhoi meddyginiaeth yn ddyddiol ac yn ôl yr angen (PRN). Byddai trosglwyddo i gartref gofal yn cael ei gefnogi gan ymweliadau wythnosol gan y Nyrs Seiciatrig Gymunedol ac adolygiadau misol gan y seiciatrydd ymgynghorol
- Gallu i gyfathrebu yn amrywio: ar adegau roedd yn gallu nodi anghenion sylfaenol, ond y rhan fwyaf o'r amser roedd ei chyfathrebu yn ddryslyd ac yn annealladwy, felly roedd yn dibynnu ar staff i ragweld ei hanghenion
- Gallu bwyta'n annibynnol ond roedd angen goruchwyliaeth arni yn ystod prydau bwyd, a deiet meddal, oherwydd bod ganddi duedd i fwyta'n gyflym ac roedd wedi cael sawl digwyddiad o dagu

Cytunodd y panel y dylid darparu GIP.

## Astudiaeth Achos Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu

Roedd Mrs Lee yn yr ysbyty. Cafodd ei derbyn i'r ysbyty gyda phroblemau niwrolegol a nifer cynyddol o drawiadau (seizures). Yn dilyn adolygiad o feddyginiaethau ni ddioddefodd unrhyw drawiad am chwe wythnos. Disgrifiwyd ei thrawiadau fel rhai ysgafn. Yn ogystal â hyn roedd ganddi hanes o dementia Alzheimer's, a chafodd ddiagnosis o hynny tua 3 blynedd yn flaenorol ac roedd y symptomau hyn wedi cyflymu ers i'w phroblemau niwrolegol ddatblygu. Nid oedd angen cymorth gan y gwasanaethau iechyd meddwl ac nid oedd unrhyw broblemau o ran ei rheoli.

Dyma'r anghenion a gafodd eu nodi:

- Roedd ganddi anawsterau cyfathrebu ond roedd yn gallu mynegi a nodi ei hanghenion. Nid oedd yn cychwyn unrhyw sgwrs ond gallai ymateb drwy ddweud ie neu na i gwestiynau uniongyrchol. Roedd yn dibynnu ar staff i ragweld ei hanghenion
- Roedd angen teclyn codi arni ar gyfer pob trosglwyddiad o wely i gadair. Roedd hi'n gallu eistedd yn annibynnol yn y gadair am gyfnodau. Defnyddiwyd offer lleddfu pwysedd i atal unrhyw niwed i'r croen/oherwydd pwysu
- Roedd ganddi archwaeth bwyd da ond roedd angen i staff dorri ei bwyd yn fân ac ar adegau roedd angen peth cymorth i fwyta arni. Roedd hi'n gallu yfed o gwpan bicer, heb anogaeth. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o golli pwysau

- Roedd hi'n gwlychu a baeddu ac roedd cathetr wedi'i osod; roedd yn gwbl ddibynnol ar staff gofal am yr holl ofal ymataliaeth, gan gynnwys rheoli'r coluddyn. Nid oedd unrhyw broblemau rheoli gyda'i chathetr ac nid oedd yr ymyriadau o ran yr angen hwn yn cael eu hystyried yn gymhleth
- Roedd ganddi rai mannau o groen sych, crachod a marciau crafu oherwydd cosi cronig. Cafodd ei gweld gan ddermatolegydd a rhoddwyd presgripsiwn o eli iddi i'w ddefnyddio bedair gwaith y dydd. Roedd pob pwynt pwyso arall yn iawn
- Roedd angen cymorth gofal nyrsio sylfaenol arni ar gyfer ymolchi, gwisgo, paratoi ar gyfer y dydd ac ymataliaeth
- Roedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi bedair gwaith y dydd, gan nyrs gofrestredig

Cafodd Mrs Lee ei hasesu fel rhywun nad oedd yn gymwys i dderbyn GIP ond canfyddwyd bod ganddi anghenion gofal nyrsio a chaniatawyd iddi dderbyn GNA.

## Astudiaeth Achos Gofal Preswyl

Roedd Mrs Jones yn 60 oed; cafodd ddiagnosis o sglerosis ymledol nifer o flynyddoedd yn ôl ac yn ddiweddar roedd wedi symud i gartref preswyl.

Dyma'r anghenion a gafodd eu nodi:

- Roedd angen llawer o gymorth arni gyda gofal personol, ond roedd yn gallu ymolchi ei hwyneb
- Roedd yn gwlychu a baeddu ac roedd angen cymorth gofalwyr arni i newid ei phad anymataliaeth
- Roedd yn ansymudol ond roedd ganddi gadair olwyn drydan y gallai ei defnyddio yn annibynnol
- Roedd yn gallu cyfathrebu ei hanghenion
- Roedd mewn perygl o gwmpo pan yn ei chartref ei hun. Fodd bynnag, gan ei bod mewn amgylchedd lle mae ganddi fynediad i staff dros gyfnod o 24 awr nid yw hyn yn risg bellach

Cafodd Mrs Jones ei hasesu gan y tîm amlddisgyblaethol fel un nad oedd yn gymwys i gael GIP neu GNA.

## Beth Nesaf?

Llenwch y ffurflen amgaeedig, gan nodi pwy oedd yn ymwneud â gofalu am yr unigolyn rydych yn gwneud ôl-hawliad ar ei ran.

Mae angen i chi ddweud wrthym **pryd a pham** yr ydych yn credu bod yr unigolyn y mae eich hawliad yn ymwneud â hwy yn bodloni'r meini prawf ar gyfer GIP. Cyfeiriwch at y penawdau o natur, dwyster, cymhlethdod a natur anrhagweladwy yr angen wrth gwblhau'r adran o dan y pennawd Safbwynt yr Hawlydd.

Yna byddwn yn cael gafael ar yr holl gofnodion perthnasol sydd ar gael i gwblhau'r adolygiad. Caiff cofnodion eu rheoli gan fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, meddygon teulu a chartrefi gofal sydd i gyd yn dilyn polisiau sy'n ymwneud â pha mor hir y byddant yn cadw cofnodion cyn iddynt gael eu dinistrio. Bydd byrddau iechyd a meddygon teulu yn dinistrio cofnodion 7 mlynedd ar ôl dyddiad marwolaeth unigolyn; bydd awdurdodau lleol yn dinistrio cofnodion ar ôl 6 mlynedd a chartrefi gofal ar ôl 3 blynedd. Yn dibynnu ar ddyddiadau'r cyfnod rydych yn dymuno hawlio amdano, efallai na fydd yr holl gofnodion ar gael gan y gallant eisoes fod wedi cael eu dinistrio. Byddwn, fodd bynnag, yn ymdrechu i gasglu'r holl gofnodion sydd ar gael a bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau gan ddefnyddio'r wybodaeth hon. Byddwch yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses.

Nid proses gyfreithiol yw hon ac nid oes angen penodi cyfreithiwr i'ch cynrychioli; bydd y GIG yn gwneud yr holl waith sydd ei angen yn ddi-dâl. Ond os byddwch yn dymuno penodi cyfreithiwr, ni fydd y costau cyfreithiol yn cael ei had-dalu gan Lywodraeth Cymru na'r GIG.

Os ydych am gael cymorth i lenwi'r ffurflen gais, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â:



# Cais am Ariannu Ôl-hawliad Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Enw gwrthrych yr hawliad: .....

Dyddiad geni: .....

Os yw gwrthrych yr hawliad wedi marw, dyddiad y farwolaeth: .....

Cyfeiriad cartref olaf cyn cael eu derbyn i ysbyty/cartref gofal: .....

.....

Cyfnod yr hawliad: ..... Tan .....

Enw'r Bwrdd Iechyd y gwnaed yr hawliad gwreiddiol iddo: .....

Er mwyn ein helpu i adnabod y cofnodion priodol sy'n ofynnol i gynnal yr adolygiad, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech nodi'r gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn ymwneud â darparu gofal, a'r cartrefi gofal ac ysbytai a fynychwyd, yn ystod y cyfnod yr hawliad.

Peidiwch â phoeni os nad ydych yn gallu eu cofio nhw i gyd, ond nodwch y rhai yr ydych yn eu cofio.

## Meddyg Teulu

Enw: .....

Cyfeiriad Meddygfa: .....

.....

## Tim Nyrsio Ardal

### Gwasanaethau Iechyd Meddwl

**Cartref Gofal 1** – O: ..... Tan .....

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

**Cartref Gofal 2** – O: ..... Tan .....

Enw: .....

Cyfeiriad .....

.....

**Ysbyty 1** – O: ..... Tan .....

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

**Ysbyty 2** – O: ..... Tan .....

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

Nyrs Arbenigol (e.e. Gofal Clwyf, Strôc, MS)

Ffisiotherapydd

Therapydd Galwedigaethol

Therapydd Iaith a Lleferydd

Gofal Cartref Awdurdod Lleol

Gweithiwr Cymdeithasol

## Safbwynt yr Hawlydd

**Enw'r claf:**

**Enw'r hawlydd:**

**Perthynas:**

O weld yr wybodaeth yr ydych wedi'i darllen, dylech ystyried pam yr ydych yn credu fod gennych chi neu eich perthynas brif angen iechyd, gan roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau mewn statws iechyd a'r dyddiadau y digwyddodd hynny. Bydd y diffiniadau a roddir am natur, cymhlethdod, dwysedd a natur anrhagweladwy yn eich helpu i wneud hyn. Efallai y byddwch yn dymuno ystyried eich anghenion chi neu eich perthynas yng nghyswllt symudedd, bwyta ac yfed, cyflwr croen, meddyginiaeth, derbyniadau i'r ysbyty, cyfranogiad proffesiynol, ymataliaeth, ymddygiad, iechyd meddwl, cwympiadau, gwybyddiaeth, lefel anghenion gofal dros gyfnod o 24 awr, rheoli poen, anadlu a risg iddynt eu hunain ac eraill.

**Safbwynt yr Hawlydd:**

**Safbwynt yr Hawlydd, parhad:**

Dyddiad:

Llofnod:

Parhewch ar dudalen arall os oes angen gan ei bod yn bwysig ein bod yn cynnwys eich safbwynt yn y broses adolygu.

Diolch i chi am lenwi'r ffurflen hon. Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn ein galluogi i gael mynediad at y dogfennau priodol a fydd yn llywio'r adolygiad.

Dychwelwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau erbyn **31 Hydref fan hwyraf** i'r bwrdd iechyd priodol drwy'r manylion cyswllt isod.

**Aneurin Bevan**

Gofal Cymhleth

Tŷ Cwibrân

Ystâd Parc Mamheilad

Pontypŵl

NP4 OYP

Gweinyddwr IRP – 01495 332173

Rheolwr Busnes a Pherfformiad – 01495 332358

### **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Gweinyddydd Ôl-hawliadau  
Tîm Gofal Hirdymor  
Bloc A, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot  
Ffordd Baglan  
Port Talbot  
SA12 7BX  
Ffôn: 01639 684561

### **Betsi Cadwaladr**

Bloc 5 Llys Carlton  
Parc Busnes Llanelwy  
Llanelwy  
LL17 0JG

### **Caerdydd a'r Fro**

Ôl-ofal Parhaus  
Ardal y De-ddwyrain  
Ysbyty Brenhinol Caerdydd  
Teras Glossop  
Caerdydd  
CF24 0SZ

### **Cwm Taf**

Geraldine Thomas – Adolygydd Nyrsys Cofrestredig  
Pencadlys Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf  
Tŷ Ynysmeurig  
Uned 3 Parc Navigation  
Abercynon  
Rhondda Cynon Taf  
CF45 4SN

### **Hywel Dda**

Aldyth King  
Gweinyddwr Gofal Hirdymor (Ardal Sir Gaerfyrddin)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
Bloc 6  
Ysbyty Tywysog Philip  
Bryngwynmawr,  
Dafen  
Llanelli SA14 8QF

## **Powys**

Gofal Cymhleth  
d/o Ward Hafren  
Ysbyty Bronllys  
Bronllys  
Aberhonddu  
Powys  
LD3 0LS

## **Am fwy o wybodaeth**

Cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd am fwy o wybodaeth neu cliciwch ar y dolenni canlynol i fynd i wefan Llywodraeth Cymru yn Gymraeg a Saesneg.

[www.gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/chc-framework/?lang=cy](http://www.gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/chc-framework/?lang=cy)  
[www.gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/chc-framework/?lang=en](http://www.gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/chc-framework/?lang=en)

Fel arall, ewch i'r safle Gofal Cymhleth – Gwybodaeth a Chymorth  
[www.gcsgc.org.uk](http://www.gcsgc.org.uk)  
[www.cciss.org.uk](http://www.cciss.org.uk)

